**MINUTES OF THE MEETING OF THE COUNTY COUNCIL HELD AT COUNTY HALL, LLANDRINDOD WELLS ON FRIDAY 18TH SEPTEMBER 2015**

PRESENT: County Councillor KF Tampin (Chair)

County Councillors MC Alexander, GR Banks, RG Brown, JH Brunt, LV Corfield, KW Curry, AW Davies, DE Davies, ER Davies, LRE Davies, S Davies, MJ Dorrance, VE Evans, WJ Evans, WA Fitzpatrick, RI George, SM Hayes, JC Holmes, GG Hopkins, DC Jones, DR Jones, EM Jones, Eldrydd Jones, GM Jones, JR Jones, WT Jones, FH Jump, DJ Mayor, MC Mackenzie, S. McNicholas, PJ Medlicott, RH Mills, JG Morris, WD Powell, WJT Powell, DR Price, GD Price, PC Pritchard, GW Ratcliffe, KM Roberts-Jones, JG Shearer, KS Silk, AG Thomas, DG Thomas, WB Thomas, TJ Van Rees, GP Vaughan, GIS Williams, SL Williams and A York.

| 1. | APOLOGIES | CC73 – 2015 |
|---|---|---|

Apologies for absence were received from County Councillors PJ Ashton, D Bailey, G Bowker, MJB Davies, SC Davies, DO Evans, EA Jones, H Lewis, PE Lewis, DW Meredith, ET Morgan, G Morgan, DA Thomas, DH Williams and JM Williams.

| 2. | DECLARATIONS OF INTEREST | CC74 – 2015 |
|---|---|---|

There were no declarations of interest reported.

| 3. | CSSIW INSPECTION OF ADULT SOCIAL SERVICES | CC75 – 2015 |
|---|---|---|

Council considered the CSSIW inspection report of Adult Social Services, the improvement plan approved by Cabinet to address the recommendations in the CSSIW report and the observations of the Adult Social Care Scrutiny Group on the improvement plan.

The Leader acknowledged the need to improve performance and restore public confidence in the service. He advised Council that he had asked for monthly monitoring reports on the implementation of the improvement plan to be brought to the Cabinet / Management Team meetings and for County Councillor Dawn Bailey, who had led the Scrutiny review, to be invited to those meetings.

The Chief Executive said that he and the Management Team recognised the impact on service users and their families. He was appreciative of the efforts of staff who had worked hard to rectify problems but he also noted that challenges over resourcing the service lay ahead. Cabinet and Management Team had taken ownership of the improvement plan and were focused on ensuring that it was delivered. He advised Council that he had ordered a review of commissioning.

The Portfolio Holder for Adult Social Care and Children's Services again put on record his apologies to those people who did not receive the quality of care that they deserve and had been let down . He welcomed the involvement of Scrutiny in

monitoring delivery of the implementation plan and hoped that this would help give reassurance to Council.

The Strategic Director – People also acknowledged that it had been a deeply distressing experience for service users and their families. She noted that the service had made good progress in addressing many of the recommendations in the CSSIW report as it had already put in place actions in addressing similar recommendations made in the Institute of Public Care (IPC) report on domiciliary care that Cabinet had considered in January 2015. She gave an assurance that the position described in the CSSIW report was not the current position because of the actions taken to put things right. Together with the Head of Adult Social Care she outlined the actions taken to work with Powys Teaching Health Board on integrated delivery, to improve engagement with stakeholders including service users and to develop capacity within the service to undertake commissioning work as well as build the domiciallary care market in partnership with providers.

The Chair of the People Scrutiny Committee advised Council to concentrate on the robustness of the improvement plan. Members had to be confident that it would deliver the improvements the CSSIW report identified as being needed.

The Portfolio Holder and officers took questions from Members. Members noted the serious impact on service users, providers and the reputation of the Council. A number of Members asked whether accountability lay with the Cabinet and Portfolio Holder or officers. The Portfolio Holder asked to be judged on whether he delivered the improvement plan and its effectiveness in light of the history associated with this project and the number of changes at both cabinet and officer level that have occurred over a number of years . The Strategic Director – People confirmed that she and the Head of Adult Services fully accepted the recommendations within the report and were working with continued determination to improve quality, capacity and the delivery of the improvement plan within the context of a challenging finacial and modernisation agenda for the service. It is anticipated that the Stategic Review that the Strategic Director of People and Resources jointly commissioned in June 15 will assist with these challenges. A number of Members related problems experienced by their constituents. The Strategic Director – People advised that service users had been contacted and received an apology where they had not received the quality of care they deserved. All Members were encouraged that where they had concerns to raise these with the Head of Service

Members asked about the working relationship with service providers and Powys Teaching Health Board. Officers explained that monthly domiciliary care provider forums has been established and were helping to build good relationships. The service was also developing integrated older people's teams with Powys Teaching Health Board and was working with them on the development of a rapid hospital discharge service to prevent delayed transfers of care but further investment was required to establish this. Members also asked about the commissioning process. The Strategic Director explained that this had been strengthened with Adult Social Care having its own dedicated commissioning unit with staff undergoing training so the service could "grow its own" procurement and commissioning specialists.

The Leader thanked Members of Council for their comments. He gave an assurance to Council that the Cabinet and Management Team would, with the assistance of the lead member of the Adult Social Care Scrutiny Group, closely monitor the implementation of the improvement plan.

Council adjourned for lunch from 12.48 until 14.00.

PRESENT: County Councillor KF Tampin (Chair)

County Councillors GR Banks, RG Brown, LV Corfield, KW Curry, AW Davies, DE Davies, MJ Dorrance, VE Evans, WJ Evans, WA Fitzpatrick, SM Hayes, JC Holmes, DC Jones, DR Jones, EM Jones, Eldrydd Jones, JR Jones, WT Jones, FH Jump, DJ Mayor, MC Mackenzie, S. McNicholas, PJ Medlicott, RH Mills, JG Morris, WJT Powell, DR Price, PC Pritchard, GW Ratcliffe, KM Roberts-Jones, JG Shearer, KS Silk, AG Thomas, DG Thomas, WB Thomas, TJ Van Rees, GP Vaughan, GIS Williams, SL Williams and A York.

| **4.** | **REFUGEE CRISIS** | **CC76 – 2015** |
|---|---|---|

The Chief Excecutive briefed Council on the local authority response to the refugee crisis and on the Wales Refugee Summit hosted by the First Minister the day before when the WLGA proposal for the creation of a Syrian Refugee National taskforce was agreed.

The following motion, which had been accepted by the Chair and Vice Chair as an ugent motion, was proposed by County Councillor John Morris and seconded by County Councillor James Gibson-Watt.

"Powys County Council

- believes that we all have a moral responsibility to resettle many more refugees and that it is the duty of the Welsh and Westminster governments and this council to react accordingly to this humanitarian crisis
- notes that other Local Authorities have already agreed to take action and help by making a contribution to assisting the current plight of refugees by offering to help shelter families classified as refugees under 1951 Refugee Convention
- further believes the Welsh and Westminster governments have a moral responsibility to resettle many more refugees and that it is the duty of the governments and this council to react accordingly to this humanitarian crisis

This council resolves

1. To also help refugees as defined above and recognises that urgent action is needed.
2. To set up and empower a politically balanced group of councillors, working with the Housing and Regeneration departments, senior officers and others to take action and help families settle and find a home in Powys.

3. This group is expected to carry out this action without delay and to complete its work within a very short timescale.
4. A report of the actions taken will be presented to the next Cabinet meeting, the relevant Scrutiny Committees and to the next full Council meeting.
5. This Council also instructs the Leader to write to all our AMs, MPs, the First Minister and the Prime Minister to remind them of their moral responsibility to resettle many more refugees.
6. To work closely with organisations and neighbouring authorities, including the BBNPA, Town and Community Councils, the LSB and the voluntary sector in order to achieve the goals outlined above."

In speaking to the motion Councillors Morris and Gibson-Watt stressed the urgent need for a co-ordinated response to the refugee crisis in which Powys County Council played its full part.

County Councillor Wynne Jones moved the following amendment, seconded by County Councillor Graham Brown:

"That Powys County Council:

- Supports the Cabinet in its positive and speedy response by agreeing to work with Welsh Government and Welsh Local Government Association on this matter, in order that Powys can fully play its part in the co-ordinated response.
- That Powys County Council will endeavour to make sure that refugees who come to Powys are given a warm welcome and will do everything possible to assist with their resettlement and integration into our society.
- That the Council call on Cabinet to set up the relevant structures and organisation required, including working with the relevant partner organisations.

It is further resolved that the Cabinet be asked to keep all Members of the County Council fully informed of developments as this matter proceeds."

Following a debate, the amendment was put to the vote and was passed.

A further amendment moved by County Councillor Aled Davies and seconded by County Councillor Gwilym Williams to add the words "Supports the current positive approach being taken by both the UK Government and Welsh Government in response the refugee crisis" was lost upon being put to the vote.

The substantive motion was put to the vote and it was

**RESOLVED that Powys County Council:**

- **Supports the Cabinet in its positive and speedy response by agreeing to work with Welsh Government and Welsh Local Government Association on this matter, in order that Powys can fully play its part in the co-ordinated response.**
- **That Powys County Council will endeavour to make sure that refugees who come to Powys are given a warm**

**welcome and will do everything possible to assist with their resettlement and integration into our society.**

- **That the Council call on Cabinet to set up the relevant structures and organisation required, including working with the relevant partner organisations.**

**It is further resolved that the Cabinet be asked to keep all Members of the County Council fully informed of developments as this matter proceeds.**

**K.F. Tampin**
**CHAIR**

**COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD DDYDD GWENER 18FED MEDI 2015**

Yn bresennol: Cynghorydd Sir KF Tampin (Cadeirydd)

Cynghorwyr Sir MC Alexander, GR Banks, RG Brown, JH Brunt, LV Corfield, KW Curry, AW Davies, DE Davies, ER Davies, LRE Davies, S Davies, MJ Dorrance, VE Evans, WJ Evans, WA Fitzpatrick, RI George, SM Hayes, JC Holmes, GG Hopkins, DC Jones, DR Jones, EM Jones, Eldrydd Jones, GM Jones, JR Jones, WT Jones, FH Jump, DJ Mayor, MC Mackenzie, S. McNicholas, PJ Medlicott, RH Mills, JG Morris, WD Powell, WJT Powell, DR Price, GD Price, PC Pritchard, GW Ratcliffe, KM Roberts-Jones, JG Shearer, KS Silk, AG Thomas, DG Thomas, WB Thomas, TJ Van Rees, GP Vaughan, GIS Williams, SL Williams ac A York.

| 1. | YMDDIHEURIADAU | CC73 – 2015 |
|---|---|---|

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb i law oddi wrth y Cynghorwyr Sir PJ Ashton, D Bailey, G Bowker, MJB Davies, SC Davies, DO Evans, EA Jones, H Lewis, PE Lewis, DW Meredith, ET Morgan, G Morgan, DA Thomas, DH Williams a JM Williams.

| 2. | DATGANIADAU O FUDDIANT | CC74 – 2015 |
|---|---|---|

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

| 3. | AROLYGIAD AGGCC O WASANAETHAU CYMDEITHASOL I OEDOLION | CC75 – 2015 |
|---|---|---|

Ystyriodd y Cyngor adroddiad arolygu AGGCC o Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, y cynllun gwella a gymeradwywyd gan y Cabinet i roi sylw i'r argymhellion yn adroddiad AGGCC a sylwadau'r Grŵp Craffu ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion ar y cynllun gwella.

Cydnabu'r Arweinydd yr angen i wella perfformiad ac adfer hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth. Dywedodd wrth y Cyngor ei fod wedi gofyn i adroddiadau monitro misol ar weithredu'r cynllun gwella gael eu cyflwyno gerbron cyfarfodydd y Tîm Rheoli / y Cabinet ac i'r Cynghorydd Sir Dawn Bailey, a oedd wedi arwain yr adolygiad Craffu, gael ei gwahodd i'r cyfarfodydd hynny.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod ef a'r Tîm Rheoli yn cydnabod yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Roedd yn gwerthfawrogi ymdrechion y staff a oedd wedi gweithio'n galed i ddatrys problemau, ond nododd hefyd fod heriau o safbwynt darparu adnoddau i'r gwasanaeth o'n blaenau. Roedd y Cabinet a'r Tîm Rheoli wedi cymryd perchnogaeth o'r cynllun gwella ac roeddent yn canolbwyntio ar sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni. Dywedodd wrth y Cyngor ei fod wedi gorchymyn adolygiad o gomisiynu.

Fe wnaeth yr Aelod Portffolio Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Plant eto gofnodi ei ymddiheuriadau i'r bobl hynny nad oeddent wedi cael y gofal o

ansawdd y maent yn ei haeddu ac a oedd wedi eu siomi. Croesawodd gyfranogiad y Grŵp Craffu i fonitro'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu ac roedd yn gobeithio y byddai hyn yn helpu i roi sicrwydd i'r Cyngor.

Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Strategol - Pobl hefyd gydnabod ei fod wedi bod yn brofiad gofidus iawn i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. Nododd bod y gwasanaeth wedi gwneud cynnydd da i roi sylw i lawer o'r argymhellion yn adroddiad AGGCC gan ei fod eisoes wedi rhoi camau ar waith i roi sylw i argymhellion tebyg a wnaed yn adroddiad y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) ar ofal yn y cartref yr oedd y Cabinet wedi'i ystyried ym mis Ionawr 2015. Rhoddodd sicrwydd nad y sefyllfa a ddisgrifir yn adroddiad AGGCC oedd y sefyllfa bresennol oherwydd y camau a gymerwyd i unioni pethau. Gyda'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion amlinellodd y camau a gymerwyd i weithio gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar gyflenwi integredig, i wella ymgysylltiad â rhanddeiliaid gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a datblygu capasiti o fewn y gwasanaeth i ymgymryd â gwaith comisiynu yn ogystal ag adeiladu'r farchnad gofal cartref mewn partneriaeth â darparwyr.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Pobl wrth y Cyngor am ganolbwyntio ar gadernid y cynllun gwella. Roedd yn rhaid i aelodau fod yn hyderus y byddai'n cyflawni'r gwelliannau a nodir yn adroddiad AGGCC fod angen eu gwneud.

Cymerodd yr Aelod Portffolio a swyddogion gwestiynau gan yr Aelodau. Nododd yr aelodau'r effaith ddifrifol ar ddefnyddwyr gwasanaethau, ar ddarparwyr ac ar enw da'r Cyngor. Gofynnodd nifer o Aelodau lle saif yr atebolrwydd ai gyda'r Cabinet a'r Aelod Portffolio neu'r swyddogion. Gofynnodd yr Aelod Portffolio iddo gael ei farnu ar a fyddai'n cyflawni'r cynllun gwella a'i effeithiolrwydd yng ngoleuni'r hanes sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn a nifer y newidiadau ar lefel y cabinet a swyddogion sydd wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol - Pobl ei bod hi a'r Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion yn derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad yn llwyr a'u bod yn gweithio gyda'r un penderfyniad i wella ansawdd, capasiti a chyflawni'r cynllun gwella yng nghyd-destun agenda ariannol a moderneiddio heriol ar gyfer y gwasanaeth. Disgwylir y bydd yr Adolygiad Strategol a gomisiynwyd ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Strategol Pobl ac Adnoddau ym mis Mehefin 15 yn cynorthwyo â'r heriau hyn. Dywedodd nifer o'r Aelodau am broblemau a wynebodd eu hetholwyr. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol – Pobl y cysylltwyd â'r defnyddwyr gwasanaethau a'u bod wedi cael ymddiheuriad os nad oeddent wedi derbyn gofal o'r ansawdd y maent yn ei haeddu. Galonogwyd yr holl Aelodau eu bod i godi unrhyw bryderon oedd ganddynt gyda Phennaeth y Gwasanaeth.

Gofynnodd yr Aelodau am y berthynas weithio gyda darparwyr gwasanaethau a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Esboniodd y swyddogion bod fforymau misol wedi cael eu sefydlu ar gyfer darparwyr gofal cartref a'u bod yn helpu i feithrin perthnasoedd da. Roedd y gwasanaeth hefyd yn sefydlu timau pobl hŷn integredig gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac yn gweithio gyda nhw ar ddatblygu gwasanaeth rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn gyflym er mwyn atal oedi wrth drosglwyddo gofal, ond fod angen buddsoddi ymhellach i sefydlu hwn. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am y broses gomisiynu. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y broses hon wedi cael ei chryfhau gan fod yr adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn

meddu ar ei huned gomisiynu bwrpasol ei hun gyda staff yn cael hyfforddiant fel y gallai'r gwasanaeth "feithrin" ei arbenigwyr caffael a chomisiynu "ei hun".

Diolchodd yr Arweinydd i Aelodau'r Cyngor am eu sylwadau. Rhoddodd sicrwydd i'r Cyngor y byddai'r Cabinet a'r Tîm Rheoli, gyda chymorth aelod arweiniol y Grŵp Craffu Gofal Cymdeithasol i Oedolion, yn monitro'n agos y broses o roi'r cynllun gwella ar waith.

Torrodd y Cyngor am ginio rhwng 12.48 a 14.00.

YN BRESENNOL: Cynghorydd Sir KF Tampin (Cadeirydd)

Cynghorwyr Sir GR Banks, RG Brown, LV Corfield, KW Curry, AW Davies, DE Davies, MJ Dorrance, VE Evans, WJ Evans, WA Fitzpatrick, SM Hayes, JC Holmes, DC Jones, DR Jones, EM Jones, Eldrydd Jones, JR Jones, WT Jones, FH Jump, DJ Mayor, MC Mackenzie, S. McNicholas, PJ Medlicott, RH Mills, JG Morris, WJT Powell, DR Price, PC Pritchard, GW Ratcliffe, KM Roberts-Jones, JG Shearer, KS Silk, AG Thomas, DG Thomas, WB Thomas, TJ Van Rees, GP Vaughan, GIS Williams, SL Williams ac A York.

| **4.** | **ARGYFWNG FFOADURIAID** | **CC76 – 2015** |
|---|---|---|

Briffiodd y Prif Weithredwr y Cyngor ar ymateb yr awdurdod lleol i'r argyfwng ffoaduriaid ac ar Uwchgynhadledd Ffoaduriaid Cymru a gynhaliwyd gan Brif Weinidog Cymru y diwrnod o'r blaen pan gytunwyd ar gynnig gan CLILC i greu tasglu Cenedlaethol ar gyfer Ffoaduriaid Syria.

Cafodd y cynnig a ganlyn, a oedd wedi ei dderbyn gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fel cynnig brys, ei gynnig gan y Cynghorydd Sir John Morris ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt.

"Mae Cyngor Sir Powys

- yn credu bod gan bob un ohonom gyfrifoldeb moesol i ailsefydlu llawer mwy o ffoaduriaid a'i bod yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan a'r cyngor hwn i ymateb yn unol â hynny i'r argyfwng dyngarol
- yn nodi bod Awdurdodau Lleol eraill eisoes wedi cytuno i weithredu a chynorthwyo drwy wneud cyfraniad i gynorthwyo gyda sefyllfa bresennol y ffoaduriaid drwy gynnig i helpu i gael lloches i deuluoedd sy'n cael eu categoreiddio'n ffoaduriaid dan Gonfensiwn Ffoaduriaid 1951
- yn credu ymhellach fod gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan gyfrifoldeb moesol i ailsefydlu llawer mwy o ffoaduriaid a'i bod yn ddyletswydd ar y llywodraethau a'r cyngor hwn i ymateb yn unol â hynny i'r argyfwng dyngarol hwn

Mae'r cyngor hwn yn ymrwymo i

1. Hefyd helpu ffoaduriaid fel y diffinnir uchod ac mae’n cydnabod bod angen gweithredu ar frys.
2. Sefydlu a grymuso grŵp gwleidyddol-gytbwys o gynghorwyr, gan weithio gyda’r adran Dai a’r adran Adfywio, uwch swyddogion ac eraill i weithredu ac i helpu teuluoedd ymgartrefu a dod o hyd i gartref ym Mhowys.
3. Disgwylir i’r grŵp hwn gyflawni’r gweithredu hwn yn ddi-oed a chwblhau ei waith o fewn amserlen fer iawn.
4. Bydd adroddiad o’r camau a gymerwyd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cabinet, y Pwyllgorau Craffu perthnasol ac i gyfarfod llawn nesaf y Cyngor.
5. Mae’r Cyngor hwn hefyd yn rhoi cyfarwyddyd i’r Arweinydd ysgrifennu at ein holl ACau, ASau, Prif Weinidog Cymru a’r Prif Weinidog i’w hatgoffa o’u cyfrifoldeb moesol i ailsefydlu llawer mwy o ffoaduriaid.
6. Gweithio’n agos gyda sefydliadau ac awdurdodau cyfagos, gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cynghorau Cymuned a Thref, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a’r sector gwirfoddol er mwyn cyrraedd y nodau a amlinellir uchod.”

Wrth siarad am y cynnig pwysleisiodd y Cynghorwyr Morris a Gibson-Watt yr angen brys am ymateb cydgysylltiedig i’r argyfwng ffoaduriaid y mae Cyngor Sir Powys yn chwarae rhan lawn ynddo.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Wynne Jones y gwelliant canlynol, ac eiliodd y Cynghorydd Sir Graham Brown:

“Fod Cyngor Sir Powys:

- Yn cefnogi’r Cabinet yn ei ymateb cadarnhaol a chyflym drwy gytuno i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y mater hwn, fel y gall Powys chwarae ei rhan yn llawn yn yr ymateb cydgysylltiedig.
- Y bydd Cyngor Sir Powys yn ymdrechu i sicrhau bod ffoaduriaid sy’n dod i Bowys yn cael croeso cynnes ac y bydd yn gwneud popeth posibl i’w helpu i adsefydlu ac integreiddio i’n cymdeithas.
- Bod y Cyngor yn galw ar y Cabinet i sefydlu’r strwythurau a’r drefniadaeth berthnasol sydd eu hangen, gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol.

Penderfynwyd ymhellach y dylid gofyn i’r Cabinet sicrhau bod pob Aelod o’r Cyngor Sir yn cael gwybod am y datblygiadau wrth i’r mater hwn fynd rhagddo.”

Yn dilyn trafodaeth, rhoddwyd y gwelliant i bleidlais a chafodd ei basio.

Cafodd gwelliant pellach a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Aled Davies ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Gwilym Williams, i ychwanegu’r geiriau “Yn cefnogi’r gweithredu positif a welir gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ymateb i’r argyfwng ffoaduriaid”, ei wrthod o’i roi i bleidlais.

Roedd y cynnig gwreiddiol i bleidlais a

**PHENDERFYNWYD bod Cyngor Sir Powys:**

- **Yn cefnogi'r Cabinet yn ei ymateb cadarnhaol a chyflym drwy gytuno i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y mater hwn, fel y gall Powys chwarae ei rhan yn llawn yn yr ymateb cydgysylltiedig.**
- **Y bydd Cyngor Sir Powys yn ymdrechu i sicrhau bod ffoaduriaid sy'n dod i Bowys yn cael croeso cynnes ac y bydd yn gwneud popeth posibl i'w helpu i ailsefydlu ac integreiddio i'n cymdeithas.**
- **Bod y Cyngor yn galw ar y Cabinet i sefydlu'r strwythurau a'r drefniadaeth berthnasol sydd eu hangen, gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol.**

**Penderfynwyd ymhellach y dylid gofyn i'r Cabinet sicrhau bod pob Aelod o'r Cyngor Sir yn cael gwybod am y datblygiadau wrth i'r mater hwn fynd rhagddo.**

**K.F. Tampin**
**CADEIRYDD**